14EG O DACHWEDD

# Ysgol Treganna

## Cylchlythyr Wythnosol



## Wythnos yma

### Cogurdd

Llongyfarchiadau i Betsan o flwyddyn 6 am ennill cystadleuaeth Cogurdd, Caerdydd a'r Fro. Nesaf fe fydd hi'n cynrychioli'r ysgol ar faes yr Eisteddfod yn Sir Fôn, fis Mai 2026. Tipyn o gamp! Da iawn ti ac rydym yn hynod o falch o dy lwyddiant.

### Ymweliad Estyn

Bydd Estyn yn arolygu Ysgol Treganna o ddydd Llun, Tachwedd 17eg, tan ddydd Mercher, Tachwedd 19eg.

Mae eich barn chi fel rhieni yn hynod bwysig. Bydd cyfarfod i rieni ar nos Lun, Tachwedd 17eg, yn neuadd yr ysgol am 3.45yp, ac mae croeso mawr i bawb i ddod.

### Chapter

Wythnos yma cafodd disgyblion blwyddyn 4 a blwyddyn 6 y cyfle gwych o wylio "première" disgyblion o Future Council - ffilm ysbrydoledig sy'n dechrau sgwrs bwysig am newid hinsawdd. Cafodd Blwyddyn 6 hefyd sesiwn holi ac ateb arbennig gydag un o sêr y ffilm, Skye.

### Bws Beic

Bydd Bws Beic nesaf yr ysgol ar ddydd Gwener, Tachwedd 21ain.Rydym yn hynod ddiolchgar i'r rhieni a'r staff sy'n cefnogi'r Bws Beic ac mae'n ffordd hyfryd o deithio i'r ysgol!

## Calendr

**Ymweliad Estyn 17.11.25**

**Ffair Nadolig 28.11.25**

# Y Nyth

**Cymorth i Rieni Mabwysiedig (Fforwm Rhieni)**

Diolch i bawb sydd eisoes wedi mynegi diddordeb. Bydd mwy o fanylion i ddilyn yn fuan.

Nod y fforwm fydd rhoi cyfle i rieni gyfarfod a rhannu profiadau, yn ogystal â dysgu am wasanaethau lleol a derbyn gwybodaeth a fydd, o bosib, yn berthnasol iddynt drwy siaradwyr gwadd.

Petai gennych ddiddordeb, a fyddech gystal â chofrestru yma

**Arweinydd Lles a'r Gymuned**

Hefyd, i'ch atgoffa …

Os ydych chi'n teimlo bod angen i chi siarad â rhywun, neu ofyn am gyngor, cofiwch fod yna groeso i chi alw heibio am sgwrs dros baned efo Mrs Rhiannydd Jones, ein Harweinydd Lles a'r Gymuned.

Bydd unrhyw bryderon neu sylwadau'n cael eu delio â mewn modd sensitif, a bydd Mrs Jones yn gweithio gyda chi i ddatrys unrhyw bryderon neu faterion sydd gennych.

**Pryd?** Bob prynhawn dydd Gwener (1.00yp-3.30yp)

**Pwysig:** Cysylltwch â Swyddfa'r ysgol i fwcio slot amser.

## Y GRhA

Cofiwch am y Ffair Nadolig bydd yn cael ei gynnal yn neuadd yr ysgol am 3.30yp, nos Wener yr 28ain o Dachwedd.
Diolch i'r GRhA a'r holl wirfoddolwyr am drefnu'r digwyddiad yma.

Hefyd mae raffl fawr y Nadolig nôl, diolch i fusnesau lleol Caerdydd. Mae'r tocynnau ar werth nawr - £5.

Cysylltwch gyda'r GRhA neu'r ysgol i brynu eich tocynnau.

## Diwrnod Plant Mewn Angen

Heddiw rydym wedi mwynhau dathlu "Diwrnod Plant Mewn Angen".
Thema'r diwrnod eleni yw "Heriwch Eich Hun".

Fel rhan o'r thema hon, rydym am osod sialens arbennig i bob disgybl!
Heriwch eich hun i fod yn iach ac egnïol, yn unol ag ethos ein hysgol, drwy ddringo mynydd o'ch dewis!

Gallwch wneud hyn gyda'ch teulu neu ffrindiau,efallai dringo'r Garth, Pen y Fan, neu unrhyw fynydd arall o'ch dewis chi!

Ar ôl cwblhau'r sialens, anfonwch eich lluniau atom ni yn yr ysgol, fel y gallwn ni ddathlu ac arddangos ymdrechion pawb i herio eu hunain ac i gadw'n iach.

## Patrwm Iaith

**Wythnos nesaf, dyma batrwm iaith yr wythnos**

Oes gennyt ti?
Oes / Nac oes

**<u>Her</u>**

Oes, mae gen i, ond does dim ... gen i

**Testun trafod yr wythnos**

Pe bawn i'n rheoli'r byd…

**Cân yr wythnos**

Popeth & Tesni Jones Rhywun yn Rhywle (Ail-gymysgiad)

**Idiom yr wythnos**

Gwneud fy ngorau glas